# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd (Diwygio) 2021** |
| **DYDDIAD** | **19 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd (Diwygio) 2021**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Mae diwygiadau'n cael eu gwneud i Reoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007, ac mae Cyfarwyddeb 2004/54/EC ar y gofynion diogelwch sylfaenol ar gyfer twneli yn y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd yn cael ei haddasu at ddibenion Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 wedi'u diwygio.

**Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd (Diwygio) 2021 yn sicrhau bod Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 ("Rheoliadau 2007) yn parhau i fod yn weithredol). Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond mae'r OS yn rhoi swyddogaethau gweithredol newydd i Weinidogion Cymru.

Mae'r OS yn darparu, yn lle Comisiwn yr UE a Phwyllgor Erthygl 17 y Comisiwn, y caiff yr awdurdod cenedlaethol (Gweinidogion Cymru) ystyried cais am randdirymiad gan Reolwr Twnnel ynghylch gosod a defnyddio offer diogelwch arloesol neu weithdrefnau diogelwch yn y twneli sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Mae priffyrdd, gan gynnwys pontydd a thwneli, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac nid ydynt yn faterion a gedwir yn ôl fel y nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2007 yn trosi i gyfraith y DU Gyfarwyddeb 2004/54/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ofynion diogelwch sylfaenol ar gyfer twneli yn y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd ("y Gyfarwyddeb").

Mae'r Gyfarwyddeb yn ceisio gwella amodau diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr twneli ffordd hir (dros 500 metr) ar y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd ("TERN") a ddiffinnir ym Mhenderfyniad Rhif 1692/96/EC Senedd Ewrop a Chyngor 23 Gorffennaf 1996. Fe'i gweithredwyd yn y DU drwy Reoliadau 2007.

Mae Rheoliadau 2007 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fyddai'n ddiffygiol ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Bydd Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd (Diwygio) 2021 yn gwneud mân ddiwygiadau technegol ac yn dileu rôl Comisiwn yr UE a Phwyllgor Erthygl 17 o'r broses o ystyried rhanddirymiad. Disodlir hyn â phroses weinyddol lle mae'r awdurdod cenedlaethol yn ystyried ceisiadau am randdirymiad gan Reolwyr Twnnel yn hytrach na Chomisiwn yr UE a'r Pwyllgor.

Mae'r OS, a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith yr OS, ar gael yma: [https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-road-tunnel-safety-amendment-regulations-2021](https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-road-tunnel-safety-amendment-regulations-2021)

**Materion sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim wedi'u nodi.

**Pam rhoddwyd cydsyniad**

Gan fod y cywiriadau a gynigir yn sicrhau bod Rheoliadau 2007 yn parhau i fod yn weithredol ac yn cynnal y lefel bresennol o barhad, ac nad oes unrhyw ymwahanu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer y diwygiadau ac nad ystyrir bod sylwedd y diwygiadiau'n wleidyddol sensitif. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.